

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

16 Medi 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ("AEIau") o dan amgylchiadau penodol. Bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt gynnal AEI pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau.
- 1.2 Nod y Rheoliadau yw sicrhau cysondeb a gwella ansawdd penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, drwy sicrhau bod effeithiau ar iechyd yn cael eu hystyried. Wrth wneud hynny, eu nod yw gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru a helpu cyrff cyhoeddus i ddangos a chyflawni eu dyletswydd llesiant o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Cafodd [Deddf Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\) 2017](#) ("Deddf 2017") ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mai 2017, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Dyma'r rhiant-Ddeddf ar gyfer y Rheoliadau ac fe'i datblygwyd ar ôl ymgynghori ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion deddfwriaethol i fynd i'r afael â nifer o faterion iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae Deddf 2017 yn canolbwyntio ar lywio amodau cymdeithasol sy'n hybu iechyd da a, lle y bo'n bosibl, atal niwed i iechyd y gellir ei osgoi.
- 3.2 Mae Deddf 2017 yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau ac mae'n cynnwys darpariaethau mewn nifer o feysydd polisi gwahanol, y mae pob un ohonynt yn ceisio mynd i'r afael â heriau presennol i iechyd a llesiant yng Nghymru. Mae'n cynnwys 127 o adrannau mewn 9 Rhan a 4 Atodlen.
- 3.3 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond yn ymwneud â rheoliadau sydd i'w gwneud er mwyn deddfu Rhan 6 o Ddeddf 2017, sy'n ymdrin ag AEIau, yn llawn. Diffinnir AEI yn adran 108(2) o Ddeddf 2017 fel *"asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, ar gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru."*
- 3.4 Mae'r darpariaethau canlynol yn Neddf 2017 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud y Rheoliadau:

- Mae adran 108(1) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch cynnal AElau gan gyrrff cyhoeddus.
- Mae adran 108(3) yn darparu bod yn rhaid i'r rheoliadau bennu'r amgylchiadau y mae rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI oddi tanynt a'r ffordd y dylai AEI gael ei gynnal.
- Mae adran 108(4) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru roi cymorth i gorff cyhoeddus arall sy'n cynnal AEI.
- Mae adran 108(5) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r cymorth i gael ei roi, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd y mae i gael ei roi.
- Mae adran 109(4) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi AElau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd y mae asesiadau i gael eu cyhoeddi.
- Mae adran 110(2) yn darparu y caiff rheoliadau ychwanegu at y rhestr o gyrrff cyhoeddus yn adran 110(1) o Ddeddf 2017, sef y cyrrff hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau.

3.5 Mae adran 123(2)(c) o Ddeddf 2017 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol drafft yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adrannau penodol o Ddeddf 2017, sy'n cynnwys adrannau 108 a 110(2) o Ddeddf 2017.

3.6 Mae adran 123(3) o Ddeddf 2017 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan Ddeddf 2017.

3.7 O dan adran 40 o [Ddeddf Deddfwriaeth \(Cymru\) 2019](#), gellir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i'r Rheoliadau.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1 Mae amcanion polisi'r Rheoliadau fel a ganlyn:

- gwella iechyd a llesiant y genedl a'i chymunedau drwy weithredu manteision AElau yn ehangach yng Nghymru;
- sicrhau bod Cymru yn arweinydd byd-eang o ran cymhwyso polisi a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd.

Cefndir polisi

4.2 Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o anghydraddoldebau systematig rhwng grwpiau cymdeithasol y gellir eu hosgoi yn aml. Yng Nghymru, mae gwahaniaeth sylweddol mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach o hyd rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru ac nid oes unrhyw awydd y bydd y bwch hwn yn lleihau. Yn seiliedig ar ddata 2020-2022, y bwch mewn disgwyliad oes rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru yw 7.8 mlynedd ar gyfer dynion a 6.5 mlynedd ar gyfer

menywod. Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru yn ehangach fyth, sef 16.4 blynedd ar gyfer dynion ac 20.2 mlynedd ar gyfer menywod.¹ Er bod cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi hirdymor wedi bod yn gwella, mae cyfran cyfanswm y marwolaethau y gellir eu hosgoi gryn dipyn yn fwy yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn 2020, dangosodd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o ran marwolaethau y gellir eu hosgoi fod marwolaethau y gellir eu hosgoi yn cyfrif am 37.0% o'r holl farwolaethau ymhlith dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu ag 18.9% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn achos menywod, y ffigurau cyfatebol oedd 25.7% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a 14.1% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn 2020, ehangodd y blwch absoliwt mewn marwolaethau y gellir eu hosgoi rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig i'r lefel uchaf ers 2003 yn achos dynion ac ers i gyfres amser y data ddechrau yn achos menywod.

- 4.3 Ni chafodd effaith pandemig COVID-19 ei theimlo i'r un graddau ledled Cymru, lle roedd cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi gyda COVID-19 yn un o achosion sylfaenol marwolaeth gryn dipyn yn uwch yn ystadegol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai lleiaf difreintiedig. Roedd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r holl ganlyniadau difrifol a oedd yn ymwneud â COVID-19 hefyd yn uwch ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o gymharu â'r rhai lleiaf difreintiedig.²
- 4.4 Ynghyd â'r prif hanfod cyfiawnder cymdeithasol y dylid gweithredu i gau'r bylchau hyn, ceir dadl economaidd hefyd sy'n cefnogi gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru mai cyfanswm y gost flynyddol i'r GIG yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig ag anghydraddoldeb o ran y defnydd o wasanaethau ysbyty oedd £322 miliwn yn 2018/19,³ a oedd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod pobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gwneud mwy o ddefnydd o wasanaethau o gymharu â'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- 4.5 Penderfynyddion ehangach iechyd yw'r amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y mae pobl yn byw ynddynt ac sy'n effeithio ar iechyd. Cydnabyddir yn eang, mai'r ffactorau hyn, at ei gilydd, yw'r prif ffactorau sy'n llywio iechyd pobl, a bod anghydraddoldebau o ran y ffactorau hyn yn un o achosion sylfaenol anghysondebau o ran canlyniadau iechyd. Mae gan wasanaethau iechyd rôl i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r bwlch hwn, ond un o amrywiaeth o ffactorau ydynt ac nid y prif ffactorau sy'n llywio ein hiechyd a'n llesiant, gyda ffactorau eraill gan gynnwys diogelwch incwm ac amddiffyniad

¹ [Healthy life expectancy by national area deprivation, Wales, time series – y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

² ADR UK, 2024: [Data Insight: Inequalities in severe COVID-19 outcomes in Wales, 2020 to 2022 - ADR UK](#)

³ Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021: [Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru](#)

cymdeithasol, yn gwneud cyfraniad llawer mwy sylweddol.⁴⁵ Felly, mae angen i'r llywodraeth a'r holl wasanaethau cyhoeddus weithredu i fynd i'r afael â'r cyfraniad a wneir gan benderfynyddion ehangach iechyd.

- 4.6 Er mwyn ymdrin â phenderfynyddion ehangach iechyd, bu Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig ers amser i gynnwys iechyd ym mhob un o'i pholisïau. Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi annog ymdrechion i gynnwys y defnydd o AEIau ac wedi gwneud darpariaeth ar gyfer asesiadau o'r fath yn Neddff 2017.
- 4.7 Mae AEI yn ddull ymarferol a ddefnyddir i asesu effeithiau iechyd posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar boblogaeth, yn arbennig ar grwpiau difreintiedig neu grwpiau sy'n agored i niwed. Caiff argymhellion eu gwneud ar gyfer penderfynwyr, er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol posibl ar iechyd a lleihau ei effeithiau negyddol ar iechyd neu eu dileu hyd yn oed.⁶

Current practice and regulatory position

- 4.8 Ar hyn o bryd, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y mae'n orfodol cynnal AEIau. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys gweithrediadau glo brig⁷a meysydd cynllunio (gweler Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21)⁸, yn ogystal â phroses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG)⁹. Er mai dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y mae'n orfodol eu cynnal, mae ein gwaith ymgysylltu â chyrff cyhoeddus wedi dangos bod AEIau (neu brosesau ar gyfer ystyried effeithiau iechyd penderfyniadau yn gyffredinol heb ddilyn methodoleg benodol) yn cael eu cynnal yn ehangach.
- 4.9 Yng Nghymru, mae'r defnydd o AEIau yn cael ei gefnogi ers dros fwy nag 20 mlynedd gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 4.10 Nid oes darlun cynhwysfawr o pryd y cynhelir AEIau yng Nghymru ar gael, gan mai dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y mae'n ofynnol cynnal AEIau. Fodd bynnag, gwyddom o'r gwaith ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac o waith y mae WHIASU wedi'i wneud er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gynnal AEIau, fod AEIau yn cael eu defnyddio'n wirfoddol yng Nghymru. Gellir cynnal gwahanol fathau o AEIau yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cynnig. Gall AEIau fod ar ffurf naill ai asesiad safonol neu asesiad cynhwysfawr. Yn ôl WHIASU, ers 2020, mae wedi cynnal naw AEI cynhwysfawr ac mae'n amcangyfrif bod tua 10 AEI safonol yn cael eu

⁴ Llywodraeth yr Alban, 2023: [Chapter 3: Health inequalities: Turning the Tide - Realistic Medicine - Doing the right thing: Chief Medical Officer annual report 2022 to 2023 - gov.scot](#)

⁵ Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru, [2022: whesri_influencingthehealthgapinwales_w.pdf](#)

⁶ Sefydliad Iechyd y Byd, 2024: [HIA \(who.int\)](#)

⁷ [Nodyn cyngor technegol mwynau \(MTAN\) Cymru 2: glo | LLYW.CYMRU](#)

⁸ [Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 21: gwastraff | LLYW.CYMRU](#)

⁹ [Arweiniad ar arfarnu trafndiaeth Cymru \(WeITAG\) | LLYW.CYMRU](#)

cynnal bob blwyddyn.¹⁰ Gall y ffigur hwn fod yn fwy mewn achosion lle mae cyrff cyhoeddus ac eraill wedi cynnal AElau heb gynnwys WHIASU.

- 4.11 Mae nodau allweddol ei gwneud hi'n orfodol cynnal AElau yn cynnwys pennu cyfres sylfaenol gyffredin o amgylchiadau lle y byddai'n ofynnol cynnal AElau ac unioni'r sefyllfa bresennol lle mae nifer yr asesiadau yn anghyson ac yn amrywio rhwng cyrff cyhoeddus. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig bod dull cymesur yn cael ei fabwysiadu er mwyn i'r adnoddau sydd eu hangen i lunio AEI yn gymesur i'r manteision iechyd posibl.
- 4.12 Disgwylir i'r Rheoliadau sicrhau cysondeb rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran y defnydd o AElau a'r penderfyniadau y maent yn cael eu cynnal ar eu cyfer. Caiff cynnal AElau gwirfoddol mewn achosion lle nad ydynt yn orfodol o dan y Rheoliadau ei annog o hyd a bydd yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r dirwedd ar gyfer defnyddio AElau yng Nghymru.

Y Rheoliadau sydd i'w gwneud

- 4.13 Gan ddefnyddio pwerau o dan adrannau 108, 109 a 110 o Ddeddf 2017, bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig gynnal AEI pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau.

Cyrff cyhoeddus penodedig

- 4.14 Mae adran 110(1) o Ddeddf 2017 yn rhestru'r cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid i'r Rheoliadau fod yn gymwys iddynt. Ar adeg deddfu Deddf 2017, roedd y rhestr hon yn adlewyrchu'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, ers hynny mae'r rhestr yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymestyn ac, felly, bydd y Rheoliadau yn diwygio'r rhestr yn adran 110(1) o Ddeddf 2017 er mwyn adlewyrchu'r rhestr yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel yr oedd ar y dyddiad yr ymgynghorwyd ar y Rheoliadau.
- 4.15 Nodir y sail resymegol dros y rhestr o gyrff cyhoeddus yn Neddf 2017 ym mharagraff 177 o'r Memorandwm Esboniadol i Ddeddf 2017:

"I sicrhau cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cynigir bod y gofynion i gynnal HIAs yn berthnasol i'r holl gyrff sydd dan sylw yn y Ddeddf honno (gan gynnwys Gweinidogion Cymru). Y nod yw sicrhau nad yw cynnal HIA yn weithgaredd annibynnol. Yn hytrach, dylai fod yn weithgaredd sy'n ffurfio rhan amlwg o waith cyrff cyhoeddus i gyflawni'r nodau iechyd, a nodau eraill, y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu gosod."

¹⁰ Gwybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.16 Mae'r ddyletswydd i gynnal AEI yn cyd-fynd yn agos iawn ac uchelgeisiau polisi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gofynion i AEIau fod yn rhan o waith cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant a nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yng ngofynion Deddf 2017. Mae adrannau 109(2) a (3) o Ddeddf 2017 yn darparu, wrth ystyried AEI, fod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddehonglir yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.17 Felly, bwriedir i Ddeddf 2017 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ategu ei gilydd.

4.18 Felly, bydd y Rheoliadau yn gymwys i'r cyrff canlynol:

- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) awdurdodau lleol;
- (ba) cyd-bwyllgorau corfforedig;
- (c) Byrddau Iechyd Lleol;
- (d) Ymddiriedolaethau canlynol y GIG—
 - (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - (ii) Felindre;
 - (iii) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru;
- (da) yr awdurdodau iechyd arbennig canlynol a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006-
 - (i) Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
 - (ii) Addysg a Gwella Iechyd Cymru;
- (e) Awdurdodau Parc Cenedlaethol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- (f) Awdurdodau tân ac achub yng Nghymru;
- (g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- (h) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- (i) Cyngor Celfyddydau Cymru;
- (j) Cyngor Chwaraeon Cymru;
- (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- (l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru;
- (m) Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (n) Awdurdod Cyllid Cymru;
- (o) Trafnidiaeth Cymru (rhif cwmni 09476013);
- (p) y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (rhif cwmni 09341679);
- (q) Cymwysterau Cymru.

4.19 Os caiff cyrff eu hychwanegu at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol neu eu tynnu oddi arni, fel na fydd yn adlewyrchu'r rhestr yn adran 110(1) o Ddeddf 2017, efallai y bydd

angen gwneud diwygiadau cyfatebol i adran 110(1) o Ddeddf 2017 yn y dyfodol.

Amgylchiadau pan fydd angen cynnal AEI

- 4.20 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus a gwmpesir gan y Rheoliadau gynnal AEIau pan fydd yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau. Bwriedir i'r Rheoliadau sicrhau cysondeb, gan gyflwyno set sylfaenol o amgylchiadau pan fo AEIau yn orfodol mewn perthynas â phenderfyniadau strategol lefel uchel, yn hytrach na'u gwneud yn orfodol ym mhob amgylchiad lle y gallai AEI fod yn adnodd defnyddiol. Egwyddor bwysig yw ein bod yn parhau i ddisgwyl i AEIau gael eu cynnal yn wirfoddol pan allai penderfyniadau effeithio ar iechyd, waeth a yw'n orfodol eu cynnal o dan y Rheoliadau ai peidio. Mae hyn yn unol ag arfer bresennol.
- 4.21 Mae'r dull gweithredu sy'n ymwneud â'r gofyniad i gynnal AEIau ar gyfer penderfyniadau o 'natur strategol' yn deillio o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn adran 1 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) sy'n darparu bod yn rhaid i gyrff penodedig, *"when making decisions of a strategic nature about how to exercise its functions, have due regard to the desirability of exercising them in a way that is designed to reduce the inequalities of outcome which result from socio-economic disadvantage"*.
- 4.22 Ystyrir y bydd alinio cwrpas penderfyniadau â dyletswydd y mae eisoes yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ei gyflawni ac, felly, y byddant yn gyfarwydd â hi, yn rhoi mwy o eglurder i gyrff cyhoeddus o ran cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau.

Sut mae'n rhaid i AEI gael ei gynnal

- 4.23 Er mwyn darparu ar gyfer hyblygrwydd ar draws swyddogaethau eang y cyrff cyhoeddus perthnasol, ni fwriedir i'r Rheoliadau fod yn rhy ragnodol o ran y dull o gynnal AEI, yn hytrach maent yn nodi'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y mae'n rhaid i AEI ei gynnwys ochr yn ochr â materion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried.
- 4.24 Wrth gynnal yr AEI, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus nodi'r penderfyniad a'r grwpiau poblogaeth perthnasol ac asesu effeithiau bwriadedig y penderfyniad, ac effeithiau anfwriadol y penderfyniad, os oes rhai, y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried penderfyniadau ehangach iechyd a ffactorau sy'n berthnasol i anghydraddoldebau iechyd, fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd nodi mesurau y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallent atal, lleihau neu liniaru

unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd, a sut i gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol a nodwyd.

- 4.25 Gallai mewnbynnau i gefnogi'r asesiad gynnwys y cyd-destun polisi ehangach a data o asesiadau effaith a dyletswyddau eraill, gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, tystiolaeth ac adroddiadau ymchwil, canllawiau a thempledi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, arbenigedd proffesiynol ac adnoddau gan y corff cyhoeddus. Bydd lefel y manylder yn dibynnu ar yr adnoddau a'r amser sydd ar gael ac i ba raddau yr ystyrir bod y penderfyniad yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- 4.26 Yn rhinwedd adran 109(1)(b) o Ddeddf 2017, pan fydd corff cyhoeddus wedi cynnal AEI yn unol â'r Rheoliadau, rhaid iddo ystyried yr AEI wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr asesiad mewn cysylltiad â nhw. Wrth wneud hynny ac yn rhinwedd adran 109(2) o Ddeddf 2017, bydd yn ofynnol i'r corff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Cyhoeddi AEI

- 4.27 Mae'r Rheoliadau yn darparu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cynnal AEI, fod yn rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi'r AEI yn y fath fodd ag sy'n briodol ym marn y corff cyhoeddus. Am fod yn rhaid i benderfyniadau sy'n destun AEI hefyd fod yn destun asesiadau effaith eraill, gellid eu cyfuno mewn un ddogfen asesiad effaith integredig. Felly, mae'n briodol y gall cyrff cyhoeddus bennu'r dull mwyaf priodol o gydymffurfio â'r gofyniad i gyhoeddi (er enghraifft, a ddylid cyhoeddi dogfen AEI annibynnol neu drwy adran mewn dogfen asesiad effaith integredig).
- 4.28 Bydd achosion lle mae cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth ag un arall ar benderfyniadau a chmau gweithredu sy'n gofyn am AEI. Yn unol ag egwyddor cymesuredd, nid oes angen i nifer o AEIau gael eu cynnal gan gyrff cyhoeddus gwahanol o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd y gofynion yn y Rheoliadau yn gymwys i bob corff cyhoeddus yn unigol ond, ar yr amod eu bod wedi'u bodloni, gellir cwblhau un AEI pan fydd sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth.
- 4.29 Wrth nodi'r adeg pryd y caiff yr AEI ei gyhoeddi, dylid gwneud hyn ar ôl i'r broses a nodir yn Rheoliad 4 o'r Rheoliadau ddod i ben, gan roi rhywfaint o ddisgresiwn i gyrff cyhoeddus o ran yr adeg fwyaf priodol. Adlewyrchir hyn yn y gwaith drafftio sy'n nodi bod yn rhaid iddo gael ei wneud 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cynnal AEI.' Mae hyn yn ystyried y ffaith y gallai asesiadau effaith eraill fod yn cael eu cynnal hefyd ar gyfer unrhyw benderfyniad ac y gallai pob asesiad effaith o'r fath gael eu cynnwys mewn un ddogfen. Mewn achosion o'r fath, mae'n debygol y byddai'n rhesymol aros nes i'r holl asesiadau perthnasol gael eu cynnal.

Mae hefyd yn ystyried y ffaith y gallai proses AEI fod yn iteraidd a chael ei datblygu dros amser.

- 4.30 Mater i'r corff cyhoeddus yw penderfynu sut y caiff yr AEI ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y gall cyrff cyhoeddus ystyried gofynion o ran hygyrchedd, megis a oes gan y personau yr effeithir arnynt fynediad i'r rhyngrwyd, a chynnig hyblygrwydd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau megis y corff cyhoeddus yn defnyddio ap yn hytrach na gwefan.

Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru

- 4.31 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gynnal AEI. Ar hyn o bryd, mae swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu canllawiau o'r fath.
- 4.32 Yn ogystal â chanllawiau, bydd yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu rhaglen o gymorth i gyrff cyhoeddus a fydd yn cynnwys hyfforddiant, pecynnau cymorth, cynnal rhwydwaith ymarferwyr AEI a gweithgareddau eraill sy'n fuddiol i gyrff cyhoeddus. Mae'n debygol y bydd y cymorth yn newid ac yn datblygu dros amser a disgwylir y bydd angen mwy o gymorth yn union ar ôl i'r Rheoliadau gael eu cyflwyno a dod i rym, nag mewn blynyddoedd dilynol. Disgwylir i Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgysylltu â chyrff cyhoeddus yn rheolaidd er mwyn nodi beth sydd ei angen arnynt a diweddarau eu gweithgareddau cynorthwyo yn unol â hynny. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y math o gymorth sydd ei angen.

Gorfodi

- 4.33 Y cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Efallai y bydd unigolion neu sefydliadau â buddiant digonol yn gallu gofyn am adolygiad barnwrol yn erbyn y corff cyhoeddus o dan amgylchiadau penodol.

Gweithredu

- 4.34 Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt a thuag at sicrhau bod digon o gymorth, hyfforddiant a darpariaeth meithrin gallu ar gael. O dan y trefniadau presennol, yn aml mae AEIau yng Nghymru yn cael eu cynnal gan gyfeirio at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 6 Ebrill 2027, caiff canllawiau o'r fath eu diweddarau a'u hailgyhoeddi, ochr yn ochr â rhaglen hyfforddiant, er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Rheoliadau ar waith. Bydd cyfnod pontio rhwng y Rheoliadau yn cael ei gymeradwyo ac yn dod i rym yn sicrhau bod digon o amser i gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt gael hyfforddiant ac ymgylfarwyddo â gofynion y Rheoliadau.

5. Ymgynghori ac Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol

- 5.1 Gellir gweld testun llawn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd mewn perthynas â Deddf 2017 yn nogfen derfynol y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017.¹¹ Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau.
- 5.2 Rhwng 29 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau: [Templed Ymgynghoriad \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru).
- 5.3 Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn i ymatebwyr ystyried y gofyniad i'w gwneud yn orfodol i gyrff cyhoeddus penodedig ddefnyddio AEIau. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr amgylchiadau lle y gallai fod angen cynnal AEI; sut i gynnal AEI; y cymorth y byddai ei angen gan lechyd Cyhoeddus Cymru a WHIASU; a chyhoeddi AEI.
- 5.4 Cafodd yr ymgynghoriad ei ddwyn i sylw amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, comisiynwyr a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafodd fersiwn i bobl ifanc a fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad eu datblygu a'u cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Cafodd deunyddiau ar gyfer gweithdai i randdeiliaid eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
- 5.5 Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad:
- 16 gan elusennau;
 - cafwyd 14 o ymatebion gan unigolion, gan gynnwys un a ddefnyddiodd y fersiwn hawdd ei deall;
 - 14 gan awdurdodau lleol;
 - 13 gan gyrff cyhoeddus a oedd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau drafft;
 - 3 gan Undebau Llafur, gan gynnwys 2 Undeb Llafur yn y sector iechyd;
 - 3 gan gyrff cyhoeddus eraill a chomisiynwyr.
- 5.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, gyda 76% o'r ymatebwyr yn cytuno â bwriad y polisi i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir ddefnyddio AEI pan fyddant yn cymryd cam neu'n gwneud penderfyniad o natur strategol (cafwyd 54 o ymatebion i'r cwestiwn hwn).
- 5.7 Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth eang i'r polisi ochr yn ochr â phryderon a godwyd ynghylch yr angen am eglurder ynglŷn â phryd y byddai angen cynnal AEI; dyletswyddau ychwanegol a fyddai'n cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus; integreiddio â dyletswyddau presennol sy'n

¹¹ Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): [Memorandwm Esboniadol](#)

cael eu cyflawni drwy gynnal asesiadau effaith; a'r angen i sicrhau bod y Rheoliadau yn ddigon hyblyg fel y gall cyrff cyhoeddus fabwysiadu dull gweithredu cymesur, wedi'i gydbwyso yn erbyn y risg y byddant yn dod yn ymarfer ticio blychau.

- 5.8 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliwyd gweithdai gyda rhai cyrff cyhoeddus a phartïon eraill â diddordeb cyn i'r ymgynghoriad gael ei lansio. Diben hyn oedd casglu barn a chyfraniadau cynnar er mwyn llywio cwestiynau'r ymgynghoriad. Ar ôl yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithdai pellach gyda chyrff cyhoeddus er mwyn crynhoi'r adborth a gafwyd, casglu sylwadau ar themâu allweddol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf.
- 5.9 O ganlyniad i'r adborth defnyddiol o'r ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu, mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r Rheoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys (1) diweddarau'r amgylchiadau lle y cynhelir AEI, er mwyn lleihau pryderon ynghylch cwrpas penderfyniadau a allai fod yn ehangach na'r bwriad; (2) dileu'r gofyniad penodol ar gyrff cyhoeddus i ymgynghori fel rhan o'r broses o gynnal AEI; a (3) symleiddio'r gofynion ynghylch fformat AEI a chyhoeddi AEI, er mwyn sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer cynnal AEI yn gymesur ac nad ydynt yn rhy ragnodol. Cafwyd adborth hefyd ynghylch rôl arfaethedig lechyd Cyhoeddus Cymru, y math o gymorth sydd ei angen ar gyrff cyhoeddus i feithrin y gallu angenrheidiol i gynnal AEIau a chynnwys canllawiau. Mae hyn yn golygu bod y Rheoliadau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i lechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau. Mae cyfarwyddiadau Gweinidogol hefyd wedi'u rhoi i lechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn am gymorth lechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu hyfforddiant a chynnwys sydd ei angen yn y canllawiau. Gellir diweddarau cyfarwyddiadau o'r fath yn ôl yr angen, sy'n galluogi fframwaith gweithio mwy hyblyg rhwng Llywodraeth Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y gallu i ymateb i alwadau sy'n newid.
- 5.10 Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Ymgynghoriad ar Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar lechyd \(Cymru: crynodeb o'r ymatebion\)](#).
- 5.11 Nodir yn adran 108(7) o Ddeddf 2017, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 108 o Ddeddf 2017, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai y mae'r Rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ("personau cynrychioliadol"), a (b) ymgynghori ag unrhyw bersonau cynrychioliadol y mae'n briodol ymgynghori â nhw, ym marn Gweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r ddyletswydd statudol hon drwy gynnal yr ymgynghoriad a'r ymarferion ymgysylltu cyfeiriwyd atynt uchod.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Roedd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ategu Deddf 2017 pan gafodd ei gyflwyno¹². Ystyriwyd tri opsiwn yn wreiddiol mewn perthynas ag AElau, sef:

- Opsiwn un – Gwneud dim
- Opsiwn dau – Llunio canllawiau ychwanegol gyda'r nod o annog a hyrwyddo defnydd pellach o AElau yng Nghymru
- Opsiwn tri – Deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i AElau gael eu cynnal gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru o dan amgylchiadau penodol (yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio).

Costau a manteision a gyfrifwyd ar gyfer y fersiwn wreiddiol o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

6.2 Caiff y costau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn eu cyfrifo gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd. Paratowyd y wybodaeth drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aseswyd y costau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn yn wreiddiol dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2017-18 a 2021-22. Lle roedd disgwyl i gostau ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd (h.y. costau cylchol), fe'u nodwyd yn y testun.

6.3 Opsiwn tri oedd yn cael ei ffafrio ac fe'u hymgorfforwyd yn Neddf 2017. Mae'r opsiwn hwn a oedd yn cael ei ffafrio wedi'i ddiweddarau i gynrychioli gweithdrefnau a chostiadau presennol.

Yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn

6.4 Gan fod Deddf 2017 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017 a bod darpariaeth wedi'i gwneud o dan Ran 6 i'r gwaith o gynnal AElau gael ei wneud gan gyrff cyhoeddus, cyfyngedig yw'r opsiynau sydd i'w hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Opsiwn 1 – gwneud dim: h.y. peidio â chychwyn yr un o'r darpariaethau yn Rhan 6 o Ddeddf 2017 a pheidio â gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Opsiwn 2 – cychwyn pob adran o Ran 6 o Ddeddf 2017 a gwneud yr holl is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen (h.y. Opsiwn 3 yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol 2017).

7. Costau a buddiannau

¹² Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): [Memorandwm Esboniadol](#)

7.1 Mae'r asesiad o gostau wedi'i rannu'n ddwy adran wahanol, sef:

- mae Adran 1 yn nodi costau suddedig yr aed iddynt rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd Awst 2025, sef y buddsoddiad ariannol a wnaed hyd yma wrth baratoi'r Rheoliadau.
- mae Adran 2 yn ymestyn o fis Medi 2025 (pan osodir y Rheoliadau gerbron y Senedd) tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2028/29. Mae'r adran hon hefyd yn nodi costau a buddiannau'r ddau opsiwn y cyfeirir atynt ym mharagraff 6.4.

7.2 Mae'r amcangyfrifon a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn gwneud cyfanswm oherwydd y talgrynnu hwn.

ADRAN 1

8. Costau Suddedig – rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Awst 2025

- 8.1 Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoi ar gyfer y Rheoliadau. Mae hyn wedi cynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus; cyfres o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad; gwaith paratoi i ddiweddarau canllawiau presennol ar AEIau a sefydlu grŵp cyfeirio defnyddwyr. Mae cyrff cyhoeddus a phartion eraill â diddordeb wedi cymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu ac wedi rhoi adborth i'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- 8.2 Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac, felly, mae bellach yn cael ei drin fel costau suddedig. Ni ddylid ystyried bod hyn yn hollgynhwysfawr, gan nad yw'n bosibl eitemeiddio na chostio pob gweithgaredd sydd wedi'i gynnal.

Costau Suddedig – Llywodraeth Cymru

- 8.3 Dechreuodd yr is-adran bolisi sy'n mynd ati i weithredu Rhan 6 o Ddeddf 2017 (Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd) ar y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau angenrheidiol bron yn syth ar ôl i Ddeddf 2017 gael ei phasio. Fodd bynnag, cafodd staff eu hadleoli yn 2017 i weithio ar yr ymateb i Brexit ac, unwaith eto, ar ddechrau 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19. Ailddechreuodd y gwaith ar y rheoliadau sy'n ofynnol gan Ran 6 o Ddeddf 2017 yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 ac, felly, ystyrir mai dyma'r man cychwyn ar gyfer costiau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 8.4 O fis Ebrill 2022, bu Uwch-swyddog Gweithredol (USG) yn gweithio ar y Rheoliadau ar 0.5 o CALI, gyda Swyddog Gweithredol Uwch (SGU) yn ymuno o fis Ebrill 2025, hefyd ar 0.5 o CALI. Mae cymorth hefyd wedi'i ddarparu gan Ddirprwy Gyfarwyddwr ar 0.1 o CALI, Gradd 7 ar 0.3 o CALI a Swyddog Gweithredol (SG) ar 0.3 o CALI.

- 8.5 At hynny, mae gwaith deddfwriaethol wedi golygu bod angen defnyddio cyfreithwyr Llywodraeth Cymru ar 0.2 o CALI ar gyfer Gradd 7 ac 0.1 o CALI ar gyfer Gradd 6.
- 8.6 Mae costau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio costau staff cyfartalog Llywodraeth Cymru (gan gynnwys argostau) ar gyfer 2025/26 ([Gweler Atodiad A](#) – Costau staffio). Mae'r costau hyn yn cynnwys pob gweithgaredd i ddatblygu a chynnal yr ymgynghoriad, gan gynnwys ysgrifennu, fformatio a chyhoeddi'r holl ddogfennau a luniwyd at y diben, dilyn prosesau deddfwriaethol mewnol, rhoi cyngor i Weinidogion, dadansoddi gwybodaeth a datblygu polisi, yn fewnol a gyda rhanddeiliaid. Ar gyfer 2025-26, mae'r costau suddedig hyn wedi'u cyfrifo ar gyfer pum mis hyd at ddiwedd mis Awst (yn gynwysedig). Mae'r gwaith i fwrw ymlaen â'r broses ddeddfwriaethol o'r adeg hon wedi'i gostio ar wahân yn Adran 2 – [Opsiwn 2](#).
- 8.7 Mae llawer o dimau eraill yn Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at y gwaith o ddarparu'r deunyddiau ar gyfer y Rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: Gwasanaethau Cyfieithu; y Tîm Dylunio; Tîm y We ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol ac eraill sydd wedi gweithio ar ddogfennau ymgynghori a deunyddiau gofynnol eraill. Byddai hyn wedi cael ei wneud fel rhan o'u gwaith arferol ac, felly, byddai'n anodd iawn dosrannu amser/cost i brosesu pob dogfen. At hynny, yn 2022-23 talwyd symiau o arian i gomisiynu asiantaethau allanol i lunio fersiwn i bobl ifanc (£4,782) a fersiwn hawdd ei deall (£2,880) o'r deunyddiau ymgynghori.

Tabl 1 – Llywodraeth Cymru – costau suddedig

	2022-23 £	2023-24 £	2024-25 £	2025-26 (5 mis hyd at ddiwedd mis Awst 2025) £
Dirprwy Gyfarwyddwr	13,300	13,300	13,300	5,500
Gradd 7	29,500	29,500	29,500	12,300
USG	37,500	37,500	37,500	15,600
SGU	0	0	0	12,400
SG	14,100	14,100	14,100	5,900
Cyfreithiwr Gradd 6	11,800	11,800	11,800	4,900
	19,600	19,600	19,600	8,200

Cyfreithiwr Gradd 7				
Gwasanaethau dylunio ar gyfer deunyddiau ymgynghori – y fersiwn i bobl ifanc	4,800	0	0	0
Gwasanaethau dylunio ar gyfer deunyddiau ymgynghori – y fersiwn hawdd ei deall	2,900	0	0	0
Cyfansymiau	133,500	125,800	125,800	64,800

Costau Suddedig – lechyd Cyhoeddus Cymru

8.8 Mae WHIASU yn lechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei chyllido drwy ddyraniad cyllidebol cyffredinol Llywodraeth Cymru i lechyd Cyhoeddus Cymru. Felly, ni fu unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae staff yn WHIASU wedi treulio cryn dipyn o amser yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau. Mae hyn wedi cynnwys mynd i ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cyd-hwyluso, cydgysylltu'n rheolaidd â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, dechrau datblygu canllawiau a deunyddiau hyfforddi newydd, rhoi cyngor ac arweiniad i gyrrff cyhoeddus a pharatoi gwaith mewnol megis papurau'r Bwrdd a chyflwyniadau mewnol.

8.9 Mae costau staff gan gynnwys 30% a ychwanegwyd ar gyfer argostau a'r costau staffio Pro Rata perthnasol ar gyfer WHIASU wedi'u cynnwys yn [Atodiad A – Costau Staffio](#). Roedd cyfran amser pob aelod o'r tîm a neilltuwyd i gefnogi'r Rheoliadau yn amrywio'n fawr yn ystod y cyfnod o amser. Mae cyfrifiadau wedi'u gwneud yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru am ei amcangyfrif gorau o gyfran yr amser a dreuliwyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau.

Tabl 2 – lechyd Cyhoeddus Cymru – costau suddedig

	2022-23 £	2023-24 £	2024-25 £	2025-26 (5 mis hyd at fis Awst 2025) £
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AEIau	6,100	6,100	21,300	10,100

Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	0	0	8,000	5,700
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau	7,800	7,800	4,900	0
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau	0	0	2,300	1,000
Band 6 – Ymarferydd lechyd y Cyhoedd	0	0	1,200	900
Band 6 – Ymarferydd lechyd y Cyhoedd	0	0	1,500	1,100
Band 9 – ymgynghorydd lechyd y Cyhoedd / Cyfarwyddwr Rhaglen	15,000	15,000	26,300	12,500
Cyfansymiau	28,900	28,900	65,500	31,300

Costau Suddedig – Cyrff Cyhoeddus

8.10 Mae cyrff cyhoeddus wedi mynd i gostau hyd yma drwy fynd i ddigwyddiadau i randdeiliaid a gynhaliwyd cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad. Amcangyfrifwyd y gost gan ddefnyddio Arolwg Blynnyddol SYG o Oriau ac Enillion gyda 30% yn cael ei ychwanegu ar gyfer argostau ar gyfradd rôl Gweithiwr Proffesiynol Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus, gweler [Atodiad A – Costau Staffio](#). Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar un aelod o staff o'r 54 o gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt (heb gynnwys Llywodraeth Cymru nac lechyd Cyhoeddus Cymru) yn cymryd rhan mewn un sesiwn ar-lein am dair awr a pharatoi ar ei chyfer. Mae rhai cyrff cyhoeddus hefyd wedi treulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad, ond ystyrir bod hyn wedi'i wneud yn ystod eu gwaith arferol ac, felly, nid yw'n cael ei gyflwyno fel cost.

Tabl 3 – Cyrff cyhoeddus – costau suddedig

	2022-23 £	2023-24 £	2024-25 £	2025-26 (5 mis hyd at fis Awst 2025) £
Cost cymryd rhan mewn gweithdy i randdeiliaid	5,100	5,100	5,100	0
Cyfanswm	5,100	5,100	5,100	0

Tabl 4 – Crynodeb o gostau suddedig cynrychioliadol hyd at ddiwedd mis Awst 2025

	2022-23 £	2023-24 £	2024-25 £	2025-26 (5 mis hyd at fis Awst 2025) £
Llywodraeth Cymru	133,500	125,800	125,800	64,800
Iechyd Cyhoeddus Cymru	28,900	28,900	65,500	31,300
Cyrff Cyhoeddus	5,100	5,100	5,100	0
Cyfansymiau	167,500	159,800	196,400	96,100

ADRAN DAU

9. Opsiwn 1 – Gwneud dim

Disgrifiad

- 9.1 Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai'n orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir gynnal AElau ac eithrio yn y nifer bach o achosion lle mae eisoes yn ofynnol eu cynnal.
- 9.2 Mae eisoes yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymgymryd â "datblygu cynaliadwy", a ddiffinnir yn adran 2 o'r Ddeddf fel *"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant"*. Mae adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhestru "Cymru iachach" fel un o'r nodau llesiant. At hynny, mae adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi, er mwyn gweithredu *"yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy", fod yn rhaid i gorff cyhoeddus "ystyried" pethau penodol, gan gynnwys "pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth (i) Cymru (pan fo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu (ii) y rhan o Gymru y mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi"*. Byddai AElau yn parhau i fod yn ffordd i gyrff cyhoeddus gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er y byddent yn gwneud hynny'n wirfoddol.
- 9.3 Mae AElau eisoes yn cael eu defnyddio gan amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru fel dull o asesu effeithiau posibl polisïau neu gamau gweithredu arfaethedig ar iechyd a llesiant. Byddai'r arfer hon yn parhau o dan yr opsiwn hwn ond ni fyddai AElau yn orfodol ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig.
- 9.4 Byddai WHIASU yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o AElau yng Nghymru, gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n cynnal AElau a datblygu adnoddau a hyfforddiant. Byddai gwybodaeth am AElau hefyd yn parhau i gael ei hystyried mewn dogfennau polisi perthnasol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- 9.5 Gan mai hwn yw'r opsiwn llinell sylfaen, nid oes unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r adran ganlynol yn rhoi amcangyfrif o'r costau yr eir iddynt ar hyn o bryd gan y gwahanol bartïon.

Opsiwn 1 – Costau i Lywodraeth Cymru

- 9.6 Yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol 2017, nid ystyriwyd bod unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn, gan nad oedd cynnal AElau yn ofyniad bryd hynny.

- 9.7 Ers 2018, fel rhan o'r broses o ddatblygu pob polisi, mae'n ofynnol i swyddogion Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Effaith Integredig. Mae sawl asesiad effaith gwahanol wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn, gan gynnwys AEI. Mae'n ofynnol i bob arweinydd polisi gwblhau cam cwmpasu cychwynnol, sy'n ystyried sut mae'r cynnig yn effeithio (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar benderfyniadau iechyd ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach iawn, ac a allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grŵp penodol. Os nodir effeithiau sylweddol ar iechyd, bydd angen cynnal AEI mwy manwl.
- 9.8 Yn seiliedig ar nifer yr AEIau a gynhaliwyd rhwng 2022-23 a 2024-25, amcangyfrifir bod tua 40 o Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu cynnal bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r mwyafrif yn cwblhau asesiad cam cwmpasu AEI. Mae asesiad cam cwmpasu yn cymryd tua 12 awr o amser SGU i'w gwblhau, wedi'u rhannu dros sawl mis, gyda thua 2 awr o amser USG i'w adolygu a'i gymeradwyo.
- 9.9 Gallai AEI llawnach gymryd hyd at 30 awr o amser USG, sy'n cynnwys gwaith ymchwil, cyfarfod â grŵp llywio os oes angen a llunio adroddiad, gyda 4 awr o amser swyddog polisi Gradd 7 i'w adolygu a'i gymeradwyo.
- 9.10 Rhwng 2022-23 a 2024-25 cynhaliwyd o leiaf bedwar AEI llawn gan Lywodraeth Cymru, er y gallai'r union nifer fod yn fwy nad yw'n ofynnol i AEIau gael eu cyhoeddi ar hyn o bryd. Mae amcangyfrif o ddau AEI llawn y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y costau sylfaenol i Lywodraeth Cymru.
- 9.11 Hefyd, mae tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n rhoi arweiniad o ran AEIau a chynghor i swyddogion sy'n eu cwblhau yn ôl yr angen. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rhoddwyd cynghor ar wyth AEI, sydd wedi amrywio o fod yn rhan o grŵp llywio i roi sylwadau drwy e-bost (ar gyfer y mwyafrif o AEIau). Amcangyfrifir bod angen tua phum awr o amser USG ar gyfer cynghor ar AEIau llawn (mae hyn yn cynnwys mynd i gyfarfodydd, gwaith paratoi cefndirol ac adolygu dogfennau), a thua awr i adolygu a rhoi sylwadau.
- 9.12 Yn ogystal â chynghor mewnol ar AEIau, mae'r tîm yn cydgysylltu'n rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, hyfforddiant a chanllawiau sy'n ymwneud ag AEIau. O dan yr opsiwn hwn, disgwylir y byddai hyn yn gofyn am tua chwe awr y flwyddyn o amser USG, chwe awr y flwyddyn o amser SGU a dwy awr y flwyddyn o amser Gradd 7.

Tabl 5 – Opsiwn 1 – costau Llywodraeth Cymru

	2025-26 (7 mis rhwng mis Medi a mis Mawrth)	2026-27 £	2027-28 £	2028-29 £

	£			
Cost cwblhau asesiad cam cwmpasu AEI	12,400	21,300	21,300	21,300
Cost cwblhau AEI llawn	1,900	3,200	3,200	3,200
Cost rhoi cyngor ar AEI – cwmpasu	1,100	1,800	1,800	1,800
Cost rhoi cyngor ar AEI – llawn	300	500	500	500
Cost cydgysylltu ag lechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â datblygiadau'n ymwneud ag AEIau	400	600	600	600
Cyfansymiau	16,100	27,400	27,400	27,400

Opwin 1 – Costau i lechyd Cyhoeddus Cymru

9.13 Byddai WHIASU, yn lechyd Cyhoeddus Cymru, yn parhau i ddarparu cymorth mewn perthynas ag AEIau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Fel arfer, byddai disgwyl i hyn gynnwys gweithgareddau megis rhoi cyngor ar AEIau, cynnal AEIau, darparu hyfforddiant, cyfeirio at adnoddau a thystiolaeth, gwneud ymchwil i AEIau a chyflwyno mewn cynadleddau. Ym mlwyddyn galendr 2024, cofnododd WHIASU 202 o ymholiadau a cheisiadau am gyngor gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys timau eraill yn lechyd Cyhoeddus Cymru, prifysgolion, awdurdodau lleol, Byrddau lechyd Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill.

9.14 Mae costau sy'n gysylltiedig â rhoi cyngor ar AEI yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar lefel yr ymwneud, y math o AEI a'i gymhlethdod. Gallai'r costau amrywio o £300 am ymateb i neges e-bost i £5,000 am gymorth capasiti ar gyfer gweithdy neu gyfres o weithdai ar AEIau, neu am fynd i sawl cyfarfod ac amser adolygu fel rhan o grŵp llywio er mwyn cefnogi AEI cynhwysfawr.

9.15 Byddai WHIASU hefyd yn parhau â'i hyfforddiant a'i chymorth rheolaidd i gyrff cyhoeddus, sy'n cynnwys sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb ddwywaith y flwyddyn, cynnal a chadw platfform e-ddysgu a hwyluso rhwydwaith AEIau.

9.16 Costau staffio sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau WHIASU. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 6 ynghyd â rhai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r platfform e-ddysgu. Amcangyfrifwyd costau staffio gan ddefnyddio graddfeydd cyflog y GIG ar gyfer 2025-26 ar bwynt y cam canolraddol gyda 30% yn cael ei ychwanegu ar gyfer argostau. (Gweler [Atodiad A – costau staffio](#)). Er mai darparu cymorth mewn perthynas ag AEIau i Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru yw'r rhan fwyaf o rôl WHIASU yn lechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r swyddogaeth hefyd yn cyflawni dyletswyddau eraill. Felly, dim ond

cyfran yr amser a dreulir yn cefnogi cyrff cyhoeddus a adlewyrchir yn Nhabl 6.

Tabl 6 – Opsiwn 1 – costau lechyd Cyhoeddus Cymru

	2025-26 (7 mis rhwng mis Medi a mis Mawrth) £	2026-27 £	2027-28 £	2028-29 £
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	23,100	42,600	42,600	42,600
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	3,800	0	0	0
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	27,900	54,700	54,700	54,700
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau	13,100	31,400	31,400	31,400
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau	21,300	35,300	35,300	35,300
Band 6 – Ymarferydd lechyd y Cyhoedd	19,800	34,000	34,000	34,000
Band 6 – Ymarferydd lechyd y Cyhoedd	18,600	42,500	42,500	42,500
Band 3 – Swyddog Cymorth Tîm	9,600	16,500	16,500	16,500
Band 9 – ymgynghorydd lechyd y Cyhoedd / Cyfarwyddwr Rhaglen	28,500	48,900	48,900	48,900
DPP a hyfforddiant staff	2,300	4,000	4,000	4,000
Trwyddedau'r platfform e-ddysgu (a adnewyddir bob tair blynedd)	4,000	0	0	4,000
Cyfieithu a chynnal e-ddysgu	3,500	6,000	6,000	6,000
Cyfansymiau	175,500	315,900	315,900	319,900

Opsiwn 1 – Costau i Gyrff Cyhoeddus

- 9.17 Byddai cyrff cyhoeddus yn parhau i fynd i'r costau sy'n gysylltiedig â chwblhau AElau (naill ai lle mae'n orfodol eu cynnal ar hyn o bryd neu lle maent yn dewis cynnal AEI o'u gwirfodd), y mae WHIASU yn amcangyfrif eu bod tua £5,000 i gwblhau AEI safonol, gan gynnwys llunio a chyfieithu'r adroddiad, amser staff a llogi lleoliad, gyda thua 10 yn cael eu cynnal bob blwyddyn.
- 9.18 Bydd cyrff cyhoeddus hefyd yn parhau i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant ar AElau a gyflwynir gan WHIASU, sesiynau e-ddysgu a sesiynau'r Rhwydwaith AElau ar-lein fel rhan o'u DPP. Amcangyfrifwyd y gost gan ddefnyddio Arolwg Blynnyddol SYG o Oriau ac Enillion gyda 30% yn cael ei ychwanegu ar gyfer argostau ([Gweler Atodiad A – Costau Staffio](#)). Mae hyn yn cyfrif am bedair awr o rôl Gweithiwr Proffesiynol

Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i weithdy ac wyth awr o rôl Weinyddol Llywodraeth Leol ar gyfer DPP ar-lein.

Tabl 7– Opsiwn 1 – Costau cyrff cyhoeddus – (Heb gynnwys Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)

	2025-26 (7 mis rhwng mis Medi a mis Mawrth) £	2026-27	2027-28	2028-29
Cost cwblhau AEI safonol;	29,200	50,000	50,000	50,000
Cost DPP sy'n gysylltiedig ag AEI	10,100	17,300	17,300	17,300
Cyfansymiau	39,300	67,300	67,300	67,300

Tabl 8 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 – Gwneud dim

	2025-26 (7 mis rhwng mis Medi a mis Mawrth) £	2026-27 £	2027-28 £	2028-29 £
Llywodraeth Cymru	16,100	27,400	27,400	27,400
Iechyd Cyhoeddus Cymru	175,500	315,900	315,900	319,900
Cyrff Cyhoeddus	39,300	67,300	67,300	67,300
Cyfansymiau	230,900	410,600	410,600	414,600

Manteision Opsiwn 1

9.19 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn a byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, byddai WHIASU yn parhau i helpu sefydliadau i gynnal AEIau gwirfoddol a hyrwyddo eu manteision. Byddai'r defnydd o AEIau ledled Cymru yn parhau i fod yn dameidiog ac yn anghyson.

9.20 Yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2017, rhagwelwyd y gallai'r galw am AEIau gynyddu oherwydd gwaith parhaus WHIASU yn codi proffil AEIau a chynnydd drwy gyrff cyhoeddus yn defnyddio AEIau i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, yn ôl WHIASU, mae nifer yr AEIau a gynhaliwyd ers 2017 wedi aros yn gymharol sefydlog.

10. Opsiwn 2 – cychwyn pob adran o Ran 6 o Ddeddf 2017 a gwneud yr holl is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen

Disgrifiad

- 10.1 Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni darpariaethau Rhan 6 o Ddeddf 2017, lle mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cynnal AEIau gan gyrff cyhoeddus perthnasol.
- 10.2 Wrth ddatblygu opsiynau i nodi'r amgylchiadau lle y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol gynnal AEI, ystyriwyd y meini prawf canlynol:
- Yr effaith bosibl o ran gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl Cymru;
 - Yr eglurder mwyaf posibl i gyrff cyhoeddus;
 - Gwerth am arian gan gynnwys:
 - darparu dull gweithredu cymesur drwy sicrhau bod y ddyletswydd i gynnal AEI yn gymwys lle mae'r adnoddau sydd eu hangen i lunio'r AEI yn gymesur â'r fantais bosibl;
 - i'r graddau y bo'n bosibl, sicrhau y bydd y Rheoliadau yn parhau i fod yn gymwys am gyfnod hir o amser.
- 10.3 Wrth fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig gynnal AEI o dan amgylchiadau penodol. Bydd yn rhaid i gyrff o'r fath nodi'r penderfyniad a'r grwpiau poblogaeth perthnasol ac asesu effeithiau bwriadedig y penderfyniad, ac effeithiau anfwriadol y penderfyniad, os oes rhai, y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried penderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau sy'n berthnasol i anghydraddoldebau iechyd, fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau. Bydd hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt nodi mesurau y maent yn ystyried yn rhesymol y gallent atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd, a sut i gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol a nodwyd.
- 10.4 Yn rhinwedd Deddf 2017, mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus ystyried yr AEI wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr asesiad mewn cysylltiad â nhw. Wrth wneud hynny, rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i dehonglir yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hasesiad hefyd.
- 10.5 Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu gyrff cyhoeddus i gynnal AEI. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael cyfarwyddyd i ddarparu rhaglen o gymorth i gyrff cyhoeddus a fydd yn cynnwys hyfforddiant, pecynnau cymorth, cynnal rhwydwaith ymarferwyr AEI a gweithgareddau eraill sy'n fuddiol i gyrff cyhoeddus.

- 10.6 Mae costau'r Rheoliadau yn y dyfodol wedi'u cyfrifo o fis Medi 2025, pan gaiff y Rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd.
- 10.7 Cynigir y daw'r Rheoliadau i rym o 6 Ebrill 2027 er mwyn darparu ar gyfer cyfnod pontio cyn y bydd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus gydymffurfio â nhw. Bydd cam cyntaf y cyfnod pontio hwn yn canolbwyntio ar gwblhau canllawiau i'w cyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru, cadarnhau anghenion o ran hyfforddiant a chynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gydag awdurdodau yr effeithir arnynt. Disgwylir i hyn gael ei ddilyn gan ail gam y cyfnod pontio, a fydd yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant a gweithgareddau meithrin gallu.

Opsiwn 2 – Costau i Lywodraeth Cymru

- 10.8 Nid yw'r costau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru o dan [Opsiwn 1](#) wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn.
- 10.9 Disgwylir i gostau sefydlogi erbyn diwedd cyfnod o bedair blynedd.
- 10.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau yn bennaf drwy gostau staff parhaus i gefnogi hynt y Rheoliadau drwy'r Senedd a datblygu canllawiau a gweithgareddau hyfforddi cysylltiedig. Costau cyfle yw'r rhain, gydag adnoddau o Is-adran lechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael eu neilltuo i gefnogi'r Rheoliadau yn hytrach na chael eu defnyddio rywle arall. Disgwylir i'r costau fod ar eu huchaf o'r adeg y gosodir y Rheoliadau gerbron y Senedd nes iddynt ddod i rym ar 6 Ebrill 2027.
- 10.11 Amcangyfrifir costau ychwanegol yr eir iddynt gan y Tîm Polisi fel Dirprwy Gyfarwyddwr – (0.1 o CALI) tan ddiwedd 26/27, Gradd 7 tan ddiwedd 26/27 (0.3 o CALI) ac yna (0.15 o CALI), USG tan ddiwedd 26/27 (0.3 o CALI) ac yna (0.15 o CALI), SGU (0.5 o CALI) tan ddiwedd 28/29, SG tan ddiwedd 26/7 (0.3 o CALI) ac yna (0.15 o CALI).
- 10.12 Bydd y costau hyn yn cynnwys gweithgareddau ychwanegol megis swyddogion polisi yn sefydlu ac yn rhedeg grŵp cyfeirio defnyddwyr er mwyn i gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt roi adborth ar y canllawiau a'r deunyddiau hyfforddi. Mae bwrdd prosiect, sy'n cael ei redeg ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru, wedi'i gynnull er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cydgysylltiedig ar gyfer y broses o bontio i'r gofynion yn y Rheoliadau a'u rhoi ar waith. Er y bydd y gwaith o ddatblygu'r ddogfen ganllaw yn cael ei arwain gan lechyd Cyhoeddus Cymru, bydd yn ofynnol i swyddogion yn Llywodraeth Cymru ei hadolygu a rhoi adborth. Mae'n bosibl y bydd timau eraill yn Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r canllawiau ac ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, ond byddant yn gwneud hyn yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd ac, felly, nid yw wedi'i gostio isod.

- 10.13 Caiff adnoddau ategol ar gyfer y broses ddeddfwriaethol ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu eu datblygu hefyd gan y Tîm Polisi yn Llywodraeth Cymru, a bydd angen cymorth gan dîm y we, gwasanaethau cyfieithu a thimau cyfathrebu yn ôl yr angen. Caiff asiantaeth ddylunio ei chomisiynu i lunio ffeithlun a fydd yn rhoi esboniad byr o'r Rheoliadau er mwyn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth.
- 10.14 Hefyd, bydd costau'n gysylltiedig â Gwasanaethau Cyfreithiol hyd at ddiwedd 26/27 Gradd 6 (0.1 o CALI) a chyfreithiwr Gradd 7 (0.2 o CALI).
- 10.15 Rhagwelir hefyd y bydd y Rheoliadau yn arwain at geisio cyngor ychwanegol gan swyddogion Polisi yn Is-adran Iechyd y Cyhoedd a chynnydd ym musnes y Llywodraeth, sef cost cyfle arall sydd wedi'i hystyried yn y costau staff parhaus.
- 10.16 Am fod Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud gan Is-adran Polisi Iechyd y Cyhoedd er mwyn sicrhau bod swyddogion polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn cael cymorth a hyfforddiant digonol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Bydd hyn yn cynnwys diweddarau canllawiau mewnol, codi ymwybyddiaeth, sicrhau bod staff yn ymgysylltu â'r canllawiau newydd a chynnal cyfres o sesiynau hyfforddi mewnol.
- 10.17 Mae effeithiau ar iechyd eisoes yn cael eu hystyried fel rhan o broses Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ac, felly, ni ragwelir y bydd nifer yr AEIau yn cynyddu. Fodd bynnag, mae lefel y manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn AEIau o dan y Rheoliadau yn uwch na'r asesiad cam cwmpasu presennol.
- 10.18 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal tua 40 o AEIau cam cwmpasu y flwyddyn a dau AEI mwy manwl, y cyfrifwyd amdanynt yn y costau ar gyfer [Opsiwn 1](#). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gynnal AEIau pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau ac, yn yr achosion hyn, disgwylir i Lywodraeth Cymru gymryd mwy o amser nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, wrth gynnal AEI.
- 10.19 Drwy amcangyfrif y bydd chwarter y penderfyniadau sy'n destun AEI cwmpasu ar hyn o bryd o fewn cwmpas y Rheoliadau, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal tua 10 o AEIau y flwyddyn o dan y Rheoliadau am gost gyfartalog amcangyfrifedig o £5,000 y flwyddyn fesul AEI (yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru). Cost cyfle yw hon gan y byddai swyddogion polisi yn cael eu defnyddio rywle arall pe na baent yn cwblhau'r AEI.

10.20 Mae costau ychwanegol am werthusiad annibynnol i asesu effeithiolrwydd y Rheoliadau hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn Nhabl 9.

Tabl 9 – costau Llywodraeth Cymru rhwng mis Medi 2025 a mis Mawrth 2029 yn gynwysedig

	2025-26 – (7 mis rhwng mis Medi a mis Mawrth) £	2026-27 £	2027-28 £	2028-29 £
Cyfreithiwr Gradd 6	6,900	9,800	0	0
Cyfreithiwr Gradd 7	11,500	19,600	0	0
Dirprwy Gyfarwyddwr Gradd 7	7,800	13,300	0	0
USG	17,200	29,500	14,700	14,700
SGU	13,100	22,500	11,200	11,200
SG	17,400	29,900	29,900	29,900
Gwerthuso	8,200	14,100	7,000	7,000
	0	15,000	30,000	45,000
Cyfathrebu a Gwaith dylunio	2,500	5,000	2,500	0
Sesiwn codi ymwybyddiaeth	1,700	0	0	0
Ymgyswrtio â chanllawiau newydd	0	4,400	0	0
Sesiwn hyfforddiant ychwanegol	0	4,400	0	0
AEI gorfodol ychwanegol	0	0	50,000	50,000
Cyfansymiau	86,300	167,500	145,300	157,800

Opsiwn 2 – Costau i lechyd Cyhoeddus Cymru

10.21 Bydd costau i lechyd Cyhoeddus Cymru yn gysylltiedig yn bennaf â phennu staff i ddatblygu'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i'w gwneud yn bosibl i gyrff cyhoeddus perthnasol feithrin y sgiliau, y cymwyseddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn iddynt gynnal AEIau yn unol â gofynion y Rheoliadau. Costau cyfle yw'r rhain gan y caiff adnoddau presennol o WHIASU eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o roi'r Rheoliadau ar waith, a allai olygu bod ganddynt lai o adnoddau ar gyfer gwaith arall (megis (1) rhoi cyngor ar AEIau yn rhyngwladol neu i sefydliadau nas cwmpeisir gan y Rheoliadau; a (2) gwneud ymchwil i AEIau).

10.22 Rhagwelir hefyd y bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at werthusiad o effeithiolrwydd y Rheoliadau. Disgwylir i hyn gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal gweithgareddau monitro cyffredinol yn barhaus, megis coladu gwybodaeth am nifer yr AElau a gynhelir gan gyrff cyhoeddus ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

10.23 Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd i gostau yn gysylltiedig â datblygu canllawiau, gan gynnwys gwaith dylunio a chyfieithu. Mae asesiad o anghenion hyfforddiant ac amser staff i ddarparu dwy sesiwn hyfforddi y flwyddyn, hefyd wedi'u hystyried wrth asesu costau staffio ychwanegol. Disgwylir y bydd cost ychwanegol o £5,000 am gyfieithu a £5,000 am ddylunio'r canllawiau.

10.24 Rhagwelir hefyd y bydd y Rheoliadau yn cynyddu nifer y ceisiadau gan gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt am gyngor ar AElau gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn hefyd wedi'i ystyried yn y costau staff ychwanegol yn Nhabl 10. Disgwylir hefyd y bydd yn ofynnol i lechyd Cyhoeddus Cymru gynnal AElau er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau.

Tabl 10 - Opsiwn 2 – Costau lechyd Cyhoeddus Cymru

	2025/26 – 7 mis (rhwng mis Medi a mis Mawrth) £	2026/27 £	2027/28 £	2028/29 £
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	1,800	3,000	0	0
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau	4,000	0	0	0
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau	2,700	0	0	0
Band 6 – Ymarferydd lechyd y Cyhoedd	3,100	0	0	0
Costau canllawiau – cyfieithu a dylunio ¹	10,000	0	0	0
Cost cwblhau AElau gorfodol ar ran lechyd Cyhoeddus Cymru	0	0	5,000	5,000
Cyfansymiau	21,600	3,000	5,000	5,000

Opsiwn 2 – Costau i Gyrff Cyhoeddus

- 10.25 Mae costau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cael eu hatgynhyrchu a'u diweddarau i raddau helaeth o'r dadansoddiad yn "Asesiad Effaith Rheoleiddiol 2017". Bydd angen i bob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Rheoliadau treulio rhywfaint o amser yn ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd a'r canllawiau wedi'u diweddarau a gyhoeddir gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Amcangyfrifir y bydd y gwaith ymgyfarwyddo hwn yn cymryd, ar gyfartaledd, wyth awr gan ddau unigolyn fesul sefydliad, gan ddefnyddio Arolwg Blynyddol SYG o Oriau ac Enillion ar gyfer rôl Gweithiwr Proffesiynol Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys argostau (gweler [Atodiad A – costau staffio](#)). Disgwylir yr eid i'r costau hyn yn 2026/27 ar yr un pryd ag y disgwylir i ganllawiau gael eu lansio gan lechyd Cyhoeddus Cymru a chyn i'r Rheoliadau ddod i rym.
- 10.26 Er na ragwelir y byddai'r sesiynau hyfforddi ychwanegol yn codi ffi gynadleddwr am gyfranogwyr o gyrff cyhoeddus, efallai yr aiff cyrff cyhoeddus i rai costau cyfyngedig yn gysylltiedig â rhyddhau staff i fynd i sesiynau hyfforddi perthnasol. Er bod nifer a gradd y staff sy'n debygol o fynd i sesiynau o'r fath yn debygol o amrywio, amcangyfrifwyd (1) y bydd dau gyfranogwr o bob corff yr effeithir arno yn cymryd rhan mewn sesiwn codi ymwybyddiaeth tair awr ar-lein yn ystod ail hanner 2025/26; ac (2) y bydd dau gyfranogwr o bob corff yr effeithir arno yn cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi wyth awr yn y flwyddyn gyntaf cyn i'r Rheoliadau ddod i rym nes i'r broses o roi'r Rheoliadau ar waith ymsefydlogi ar ddiwedd 28/29.
- 10.27 Caiff grŵp cyfeirio defnyddwyr ei sefydlu er mwyn sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir a hyfforddiant a ddarperir gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn diwallu anghenion y cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt. Amcangyfrifir y cynhelir tair sesiwn o'r grŵp, a fydd yn para tair awr yr un, er mwyn darparu ar gyfer presenoldeb a gwaith paratoi. Amcangyfrifir y bydd tua 35 o gyfranogwyr yn y sesiynau gyda statws amcangyfrifedig ar lefel rôl Gweithiwr Proffesiynol Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda rhai cyfranogwyr yn cynrychioli mwy nag un corff cyrff.
- 10.28 Mae cyrff cyhoeddus eisoes yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig â chwblhau tua 10 AEI safonol y flwyddyn. O dan y Rheoliadau, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt gynnal AEI pan fyddant yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau. Oherwydd eu natur, gall penderfyniadau strategol ymestyn dros sawl blwyddyn a gall mwy o benderfyniadau gael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus mewn rhai blynyddoedd o gymharu ag eraill oherwydd cylchoedd gwleidyddol. Os bydd pob corff cyhoeddus yn gwneud un penderfyniad strategol y flwyddyn, ar gyfartaledd, byddai nifer yr AEIau a gynhelir yn cynyddu i tua 54 y flwyddyn, sef cynnydd o 44.

Tabl 11 – Opsiwn 2 – Costau cyrff cyhoeddus (heb gynnwys Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)

	2025/26 – rhwng mis Medi a mis Mawrth (7 mis) £	2026/27 £	2027/28 £	2028/29 £
Cost mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Defnyddwyr	9,900	0	0	0
Mynd i un sesiwn codi ymwybyddiaeth	10,200	0	0	0
Cost amser ymgyswrtio	0	27,300	0	0
Mynd i un sesiwn hyfforddi ychwanegol y flwyddyn	0	27,300	27,300	27,300
Cost cwblhau AEI gorfodol	0	0	220,000	220,000
Cyfansymiau	20,100	54,600	247,300	247,300

Tabl 12 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2

	2025/26 – rhwng mis Medi a mis Mawrth (7 mis) £	2026-27 £	2027-28 £	2028-29 £
Llywodraeth Cymru	86,300	167,500	145,300	157,800
Iechyd Cyhoeddus Cymru	21,600	3,000	5,000	5,000
Cyrff Cyhoeddus	20,100	54,600	247,300	247,300
Cyfansymiau	128,000	225,100	397,600	410,100

Manteision Opsiwn 2

- 10.25 Bwriedir i'r Rheoliadau ymgorffori ystyriaethau o ran iechyd mewn prosesau gwneud penderfyniadau strategol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd gwneud AElau yn orfodol o dan amgylchiadau penodol yn chwarae rôl hollbwysig o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn asesu effeithiau penderfyniadau penodol ar iechyd a llesiant yn systematig, yn arbennig ar grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau dan anfantais. Mae'r dull hwn o weithredu yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo tegwch o ran iechyd a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.
- 10.26 Mae AElau yn darparu fframwaith strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwerthuso'r effeithiau y gallai polisiâu, rhaglenni a phrosiectau eu cael ar iechyd. Drwy nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol yn gynnar yn y broses gwneud penderfyniadau, mae AElau yn galluogi dewisiadau mwy gwybodus ac yn helpu i osgoi canlyniadau anfwriadol. Mae hyn yn cefnogi dull ataliol o ymdrin ag iechyd y cyhoedd ac yn cydfynd â strategaethau iechyd hirdymor Llywodraeth Cymru.
- 10.27 Mae'r broses hon hefyd yn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae AElau yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig 'Cymru Iachach' a 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal'. Nod y Rheoliadau yw sicrhau nad yw effeithiau ar iechyd yn ôl-ystyriaeth ond, yn hytrach, eu bod yn ystyriaeth graidd mewn gwaith cynllunio strategol.
- 10.28 Disgwylir i'r cynnig i wneud AElau yn orfodol o dan set ehangach o amgylchiadau hefyd feithrin mwy o gydweithredu rhwng pob rhan o'r sector cyhoeddus. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r broses o roi'r Rheoliadau ar waith drwy ganllawiau a hyfforddiant wedi'u teilwra, gan helpu cyrff cyhoeddus i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiadau effeithiol. Gwelwyd y dull cydweithredol hwn ar waith eisoes wrth ddatblygu'r Rheoliadau, a oedd yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.
- 10.29 Bydd safoni'r defnydd o AElau mewn cyrff cyhoeddus penodol yn sicrhau cysondeb o ran ymarfer ac yn helpu i ymgorffori'r broses yn ystrolon mewn fframweithiau gwneud penderfyniadau presennol. Bydd hyn yn lliniaru'r risg y bydd AElau yn dod yn ymarfer "ticio blychau" ac yn sicrhau, yn lle hynny, eu bod yn hyrwyddo eu defnyddio fel adnodd gwerthfawr i wella canlyniadau iechyd y cyhoedd.
- 10.30 Mae tystiolaeth gref o blaid effeithiolrwydd AElau. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi nifer o fanteision sy'n gysylltiedig ag AElau, gan gynnwys:

- Darparu'r dystiolaeth orau sydd ar gael i benderfynwyr.
- Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Cyfleoedd i atgyfnerthu nodweddion cynnig a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth.
- Hyrwyddo cydweithredu traws-sector.
- Dull cyfranogol sy'n rhoi gwerth ar farn cymunedau.
- Hyblygrwydd.
- Cysylltiadau â datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau.¹³

10.31 Yng Nghymru, mae gwaith ymchwil ac astudiaethau achos, gan gynnwys y rhai gan WHIASU, yn dangos bod AElau wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisi, wedi atgyfnerthu canlyniadau iechyd cadarnhaol ac wedi helpu i liniaru effeithiau negyddol. Mae Cymru yn cael ei chydabod fwyfwy yn rhyngwladol am arwain y gad o ran cymhwyso AElau at bolisi cyhoeddus a bydd gwneud AElau yn orfodol mewn achosion penodol yn sicrhau manteision sylweddol o ran iechyd y cyhoedd, yn enwedig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig, ac yn atgyfnerthu statws Cymru fel arweinydd ym meysydd tegwch iechyd a llunio polisiâu ataliol.

11. Asesu Cystadleuaeth

11.1 Mae angen yr hidl asesu cystadleuaeth os bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol. Gan y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar gyrff cyhoeddus, nid oes ei hangen.

12. Adolygiad ar ôl gweithredu

12.1 Caiff gwerthusiad annibynnol ei gynnal er mwyn asesu effeithiolrwydd y Rheoliadau. Rhagwelir mai proses barhaus fydd hon cyn ac ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

12.2 Disgwylir i'r gwerthusiad ystyried a yw amcanion cyffredinol y Rheoliadau (sy'n cynnwys gwella iechyd a llesiant pobl Cymru a safle Cymru fel arweinydd byd-eang o ran cymhwyso polisi a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd), wedi'u cyflawni (neu a ellir eu cyflawni) ac asesu a yw'r Rheoliadau yn gwneud y canlynol:

- rhoi eglurder (i'r graddau y bo'n bosibl) i gyrff cyhoeddus perthnasol ynglŷn â'r amgylchiadau lle mae'n ofynnol i AElau gael eu cynnal o dan y gyfraith;
- sicrhau bod gyrff cyhoeddus yn cael cymorth priodol i gynnal AElau;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran dull gyrff cyhoeddus o gynnal AElau;
- sicrhau nad yw proses yr AEI yn rhy fiwrocrataidd na beichus i gyrff cyhoeddus perthnasol;

¹³ Sefydliad Iechyd y Byd, 2024: [HIA: Reasons for using HIA \(who.int\)](https://www.who.int/publications/m/item/hia-reasons-for-using-hia)

- osgoi creu canfyddiad mai dim ond pan fônt yn orfodol y mae angen cynnal AElau a pharhau i annog eu defnyddio yn fwy cyffredinol fel mater o arfer dda.

12.3 Yn ogystal â phroses werthuso ffurfiol, bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgymryd â gwaith monitro parhaus er mwyn coladu gwybodaeth gan gyrrff cyhoeddus am nifer yr AElau a'r math o AElau sydd wedi'u cynnal. Mae hyn yn golygu y bydd modd creu darlun mwy cynhwysfawr o'r dirwedd AElau sy'n newid yng Nghymru.

Atodiad A – Costau Staffio

Cost Staffio Llywodraeth Cymru

	Wedi'u Pwysoli Misol £	Wedi'u Pwysoli Blynnyddol £	Costau Fesul Aw wedi'u Pwysoli
Cymorth Tîm	3,297	39,559	24
SG	3,903	46,839	29
SGU	4,979	59,751	37
USG	6,245	74,943	46
G7	8,182	98,186	60
G6	9,816	117,797	72
Dirprwy Gyfarwyddwr	11,078	£132,938	82

- Mae costau fesul awr yn seiliedig ar 44 o wythnosau gwaith / 37 awr mewn wythnos

Costau Staffio Iechyd Cyhoeddus Cymru

Daw costau staffio o [Raddfeydd cyflog ar gyfer 2025/26 | Cyflogwyr y GIG](#) - pwynt y cam canolraddol gyda 30% wedi'i ychwanegu ar gyfer argostau ac wedi'i dalgrynnu

- Band 8a pwynt y cam canolraddol £58,487 ynghyd â 30% = £76,033
- Band 7 pwynt y cam canolraddol £50,273 ynghyd â 30% = £65,355
- Band 6 pwynt y cam canolraddol £40,823 ynghyd â 30% = £53,070
- Band 9 pwynt y cam canolraddol £115,763 ynghyd â 30% = £150,492
- Band 3 y cam uchaf (dim cam canolraddol) £26,598 ynghyd â 30% = £34,577

Costau Staffio Pro Rata

Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau (0.8 o CALI)	£60,826
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau (0.2 o CALI)	£13,071
Band 8a – Prif Swyddog Datblygu AElau (0.9 o CALI)	£68,430
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau (0.6 o CALI – absenoldeb mamolaeth o 29/04/2025 – talwyd tan 26/01/2026)	£39,213
Band 7 – Uwch-swyddog Datblygu AElau (0.7 o CALI tan fis Mawrth 26 yna 0.6 o CALI)	£45,749 (0.7) £39,213 (0.6)
Band 6 – Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (0.8 o CALI)	£42,456
Band 6 – Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (1 CALI)	£53,070
Band 3 – Swyddog Cymorth Tîm (0.53 o CALI)	£18,326
Band 9 – ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd / Cyfarwyddwr Rhaglen (0.5 o CALI)	£75,246

Costau Staffio Cyrff Cyhoeddus

Daw costau o'r Arolwg Blynnyddol o oriau ac enillion 2024: [Employee earnings in the UK – y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) (ffigur 7 – enillion gros llawn amser blynnyddol yn ôl galwedigaeth)

- Galwedigaethau gweinyddol llywodraeth leol £30,295 gros, y flwyddyn – 30% ychwanegol ar gyfer argostau = £39,383 - Cost fesul awr = £24
- Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus – £39,537 gros, y flwyddyn – 30% ychwanegol ar gyfer argostau = £51,400 - Cost fesul awr = £32
- *Mae costau fesul awr yn seiliedig ar 44 o wythnosau gwaith / 37 awr mewn wythnos*